

## Martha Hughes Cannon- Darlith yr Eisteddfod.

O'r holl o'r gwagedd o Gymru groesodd y paith ym mlynnyddoedd cynnar yr ymfudiad i orllewin yr Unol Daleithiau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gellir dadlau mai Martha Hughes, neu, i roi iddi ei henw priodasol, Martha Hughes Cannon, yw'r un ddylanwadodd fwyaf ar hanes ei gwlad mabwysiedig.

Yn Utah, mae Martha Hughes Cannon yn arwres. Ar un o brif strydoedd Dinas y Llyn Halen y mae plac yn ei choffau ac arno'r geiriau hyn. 'Er cof am y Doctor Martha Hughes Cannon. Meddyg arloesol. Seneddwraig talaith gyntaf yr Unol Daleithiau.' Gwelir ei henw hefyd ar brif adeilad yr Adran Iechyd yn y dref. 'Dr Martha Hughes Cannon Building'. Y mae cerflun ohoni yn sefyll tu allan i senedd-dŷ Utah, yn wyth troedfedd o uchder, ac yn ei phortreadu fel roedd hi pan weithiai yn yr adeilad tu cefn iddi. Ac y mae mwy o anrhydeddau eto ar eu ffordd.

Dyma Neuadd y Cerfluniau, Washington D.C. I'r neuadd hon y mae pob talaith yn anfon cerflun o ddau o'r dinasyddion amlycaf yn eu hanes. Yn cynrychioli Talaith Virginia, er engraifft, mae cerfluniau o George Washington a'r Cadfridog Robert E. Lee. O Texas daw Sam Huston a Thomas Edison o Ohio. Mae'r Tad Damien yma o Hawaii ac Eisenhower yn cynrychioli Kansas, ac o Awst, dwy fil ac ugain, cynrychiolwyr Utah fydd Brigham Young, sef sefydlydd y dalaith, sydd yno yn barod, a Martha Hughes Cannon o Llandudno. Eto i gyd, yn Llandudno, ei thref enedigol ac yn Llanddoged, milltir neu ddwy i'r gogledd o'r maes yma, o le daw ei theulu, ychydig sydd wedi clywed amdani.

Ganwyd Martha ym 1857, yn Stryd Madog, yng nghanol tref newydd Llandudno oedd bryd hynny yn prysur godi ar y marian o dan y Gogarth, yn ferch i saer. Yr oedd ei rhieni, Peter ac Elizabeth Hughes, yn rhan o gymuned fechan o Formoniaid fyddai'n cyfarfod i fyny yn

yr hen bentref ar y Gogarth. Y mae Thomas Rowlands yn ei ddisgrifiad o fywyd yr hen bentref, 'Atgofion am Llandudno', yn son am gyfarfodydd wythnosol yng ngerddi hen fferm Ty Coch, lle deuai arweinwyr y pentrefwyr i ddadlau gyda'r Mormoniaid.

Yn aml, brithwyd y dadleuon hyn gan gyfeiriadau at yr Unol Daleithiau ag at diroedd gwag y paith y tu hwnt i'r Missouri, oherwydd, bryd hynny, yr oedd disgwyl i Formoniaid ffyddlon adael eu cartrefi ym Mhrydain ac ymgasglu yn Nyffryn y Llyn Halen, yn y diriogaeth ddaeth i'w hadnabod yn ddiweddarach fel talaith Utah, i ddisgwyl yno am ail-ddyfodiad Crist. Soniai Edward Parry, Tanygraig, arweinydd y Mormoniaid yn aml y cyfarfodydd hyn 'am y mawr bwys o aberthu popeth er mwyn ymfudo i Ddinas y Llyn Halen.'

Ufuddhaodd rhieni Martha i'r alwad. Buont fisoedd ar y daith, gan groesi'r taleithiau dwyreiniol fel roedd y rhyfel cartref yn torri allan. Yna, ar y daith hunllefus dros y Rockies, a thrwy Nebraska a Wyoming, collodd Martha ei chwaer fawr, Mary, a'i thad hefyd ddiwrnod wedi cyrraedd y Ddinas. Pedair oed oedd Martha ar y pryd.

Pan ddaeth i oedran addysg bellach, efallai oherwydd y profiadau hyn, penderfynodd mai gofalu am gleifion ddewisai hi fel gyrfa. Oherwydd ei gallu cynhenid, dewiswyd hi gan yr Eglwys Formonaidd i fod yn un o'r tair merch cyntaf o Utah i gael hyfforddiant fel meddygon. Gweithiodd ei ffordd drwy goleg, yn golchi dillad ei chyd-fyfyrwyr ac yn glanhau iddynt. Enillodd radd ym Mhrifysgol Michigan, ac yn aml hi fyddai'r unig ferch yn y dosbarthiadau, ac wedi hynny gradd uwch ym Mhrifysgol Pennsylvania. I orffen ei haddysg, cafodd radd mewn areithio a siarad cyhoeddus mewn sefydliad yn Philadelphia, fel pe bai'n gwybod y byddai'r sgiliau hynny hefyd, rhyw ddiwrnod, yn ddefnyddiol iawn iddi.

Wedi cwblhau ei haddysg yn llwyddiannus, apwyntiwyd hi i staff yr ysbyty geni cyntaf yn Ninas y Llyn Halen ac ymddangosai fod gyrfa

ddisglair a defnyddiol o'i blaen. Ond nid fel'na oedd hi i fod. Ni fyddai bywyd fyth yn hawdd i Martha Hughes. Ynnddi, yr oedd rhyw wrthdaro a chroesdyniad cyson rhwng dau begwn ei chymeriad, rhwng ar yr un llaw ei chredoau ceidwadol dyfnion yn ymwneud â'i chrefydd, ac ar y llaw arall, ei greddfau radical tanllyd yn ymwneud â'i gwleidyddiaeth a'i ffeministiaeth. Merch gymhleth, astrus oedd hi yn cael ei thynnu llawer ffordd, a dyna sy'n ei gwneud hi mor ddiddorol ac mor fodern. Yn sydyn, ym mis Ebrill, 1886, trodd ei chefn ar ei gyrfa addawol ac ar y cyfan a gyflawnwyd ganddi, a ffodd o Utah. Gyda hi aeth a'i baban, Elizabeth, oedd yn saith mis oed ac o'i hôl gadawodd ŵr a briododd mewn seremoni gyfrinachol ddeunaw mis ynghynt.

Un o gyfarwyddwyr yr ysbyty oedd Angus Munn Cannon, dyn amlwg yn y gymdeithas Formonaidd. Yr oedd ddwy flynedd ar hugain yn hŷn na Martha ac yn dad i ddau ar bymtheg o blant a hi oedd ei bedwaredd gwraig.

Ni fedrent fod wedi cychwyn ar briodas amlwreiciol ar amser mwy anffodus. Yr oedd ton o wrthwynebiad i Formoniaeth yn sgubo drwy America ar y pryd a'r llywodraeth yn Washington yn benderfynol o ddileu'r arfer o briodasau amlwreiciol â ystyrient hwy mor anwaraidd. Dyma fel gwelent Brigham Young - fel octopws ffiadd yn ymestyn ei dentaclau i afael yn rhai o sefydliadau parchusaf y genedl - dyma'r gyfraith yn ei grafangau fan hyn, a lawr fan hyn y mae y Farn Gyhoeddus wedi ei chipio, ac Yncle Sam ei hun yn ei haflau a draw fan hyn, y mae hyd yn oed y YMCA druan mewn trafferth.

'How long will this destructive monster be allowed to live?' yw'r teitl o dan y llun. Ddim yn hir iawn os cai'r llywodraeth yn Washington ei ffordd.

Cryfhawyd y cyfreithiau yn erbyn y Mormoniaid a gosodwyd ditectifs i wyllo rhai o ddynion amlycaf y gymdeithas, gyda'r bwriad, os oedd prawf eu bod yn cyd-fyw gyda mwy nag un wraig, o'u harestio a'u

caethiwo. Nid yw'n hawdd i ni ddeall heddiw beth yrrai merch synhwyrol ac uchelgeisiol fel Martha i ddewis priodas o'r fath. Yn sicr, nid cael ei gwthio'n groes i'w dymuniad i briodas amlwreiciol gan gymdeithas bartriarchaidd, ormesol oedd ei hanes hi. Yn ei hymdrech i ennill yr addysg a ddymunai ac yn ei dewis o yrfa, dangosodd yn barod llawer o'r annibyniaeth a ddaeth yn nodweddiadol ohoni yn ddiweddarach yn ei gyrfa. Gwyddai cyn priodi na châi gyd-fyw gyda'i gŵr. Gwyddai mai cyfarfodydd brysiog ac ymweliadau prin a gâi ganddo. Gwyddai mai priodas heb gartref fyddai ganddi. Er hynny, 'roedd hi'n benderfynol o'i briodi. Oherwydd credai Martha yn ddiffuant, fel y rhan fwyaf o Formoniaid bryd hynny, yn nwyfoldeb priodasau amlwreiciol. 'Byddai byw y bywyd amlwreiciol yn annioddefol,' ebe hi, 'heb y sicrwydd pendant oddi wrth Dduw bod yr egwyddor yr ydym yn ymladd ac ymdrechu i'w gadw yn ei holl burdeb ar y ddaear wedi ei ordeinio ganddo Ef ac mai arfau yn ei ddwylo Ef ydym.' Ac yr oedd hi hefyd, wrth gwrs, yn sicir, dros ei phen a'i chlustiau, mewn cariad.

Angus oedd un o'r cyntaf i gael ei rwydo gan dditectifs y llywodraeth ffederal. 'A.M.Cannon arrested. Accused of having married Miss Mattie Hughes.' Fel 'Mattie' roedd hi'n cael ei hadnabod yn Utah. Gwysiwyd hi i ymddangos ger bron y llys i roi tystiolaeth yn erbyn ei gŵr ac yn erbyn dynion eraill hefyd oedd mewn priodasau amlwreiciol. Gwrthododd wneud hynny a phenderfynodd ffoi. 'Gwell gennyf fod yn ffoadur mewn gwlad estron,' meddai, 'yn dal fy mhen yn uchel ymysg fy nghyd-ddynion, na bod gartref, yn garcharor gwangalon.'

Ac felly, ym mil wyth wyth chwech, daeth Martha yn ôl i Ewrop, gan ymweld â theulu'u mam yn Birmingham ac yna dod i Landdoged i ymweld â chartref ei thad â beddau ei thadau. Ofnai gydnabod hyd yn oed i'w theulu agos ei bod mewn perthynas amlwreiciol ac yn naturiol, roeddent hwy yn ddrwgdybus iawn o'r fam sengl yma, heb ŵr ar ei chyfyl. Gadawodd Gymru a Phrydain ar ôl blwyddyn a mynd

i grwydro'r cyfandir ar ei phen ei hun – i Baris, yna i'r Swistir, gyda Lizzie fach yn unig yn gwmni, ac ymlaen i'r Almaen, yn teimlo'n hunan-dosturiol iawn. 'Rwy'n gwybod i ti wneud dy ore glas drosof, f'anwylyd,' ysgrifennodd at Angus, 'ond gwyddost mai bywyd arswydus rwy'n ei fyw yma. Ond na! Sut ddylet wybod y degfed ran o be rwy'n ddioddef, mewn salwch ac unigrwydd, ymysg dieithraid dideimlad?'

Arllwysodd ei chariad allan mewn cyfres o lythyrau ato. Cadwodd ef y llythyrau ac ar ei farwolaeth aethant i Archif yr Eglwys yn Ninas y Llyn Halen, lle maent i'w darllen heddiw. Erbyn hyn, y mae rhai ohonynt wedi eu cyhoeddi. Ynddynt cawn ddarllen am y briodas drwy lygaid Martha ei hun - cofnod gwerthfawr ac unigryw o dreialon Cymraes mewn priodas anarferol iawn. 'Yr wyf yn dechrau sylweddoli, fwy nag erioed, mor annwyl wyt i mi,' ysgrifennai. 'Ni fedri fyth ddychmygu fy sefyllfa yma oni bai i **ti** hefyd gael dy alltudio, saith mil o filltiroedd o dy gynefin, dy hunaniaeth wedi ei ddryllio, yn ofni sibrdw dy enw dy hun ac yn llythyru gydag un person yn unig. Ysgrifennaf hyn, nid er mwyn ennill dy gydymdeimlad, ond er mwyn esbonio i ti mor bwysig yw dy lythyrau i mi.' Poenai am 'ein babi bychan gwelw sydd ag angen dirfawr am gysuron cartref,' a hiraethai 'am gael edrych eto ar wynebau ein hanwyliaid'.'

Ni ymddangosai fod tair gwraig cyntaf ei gŵr yn broblem yn y byd iddi. Yn wir, nid oes y fflach leiaf o genfigen tuag atynt yn y llythyrau. Yr oedd y tair yn gymaint hŷn na hi ac y mae lle i gredu mai dyletswydd cymdeithasol arweiniodd Angus at ddwy o'i briodasau. Nid oedd hyn yn anghyffredin mewn priodasau amlwreiciol Mormonaidd. Yr oedd yn priodi ei wraig gyntaf ym 1858, pan oedd Martha ond yn flwydd oed. Cafodd ganiatad gan Brigham Young i wneud hynny ar yr amod ei fod yn priodi ei chwaer hi hefyd, gan fod honno dipyn yn hŷn ac wedi methu ffeindio gŵr. Yna, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach priododd drydedd

gwraig, Clarissa, ac yr oedd hon yn wraig weddw, gyda dau o blant bach a dau arall wedi eu mabwysiadu. Ymddangosai Martha yn gyfeillgar â'r dair. Ond yna, ychydig ddyddiau cyn i iddi ffoi i Brydain, yn gyfrinachol iawn, priododd Angus am y bumed tro.

Cymraes arall oedd y wraig newydd, Maria Bennion. Yr oedd Maria y ieuengach na Martha. Yn naturiol, profodd y briodas hon dipyn yn fwy anodd i Martha dderbyn. 'Hoffwn pe medrwn edrych ar ddwyfoldeb y peth yn unig,' meddai, 'ond y mae cymaint o'r pridd yn ein natur ni'n dau fel na fedraf wneud hynny'n hawdd.' Am y tro cyntaf daw arlliw o genfigen i mewn i'r llythyrau. Ond nid dyna ddiwedd y priodasau. Cyn iddi dychwelyd o Ewrop, roedd Angus wedi priodi eto – am y chweched tro.

Ond parheuai i ddatgan ei gariad at Martha yn ei lythyrau. 'Er dy fod yn fy amau, fe'th gerir di gan y gŵr yr aberthaist bopeth er ei fwyn.' 'Oni bai am Lizzie fach a chrefydd ein Duw,' atebodd Martha, 'ni fyddai ots gennyf i os na welwn y Llyn Halen fyth eto.' Ysgrifennodd am deulu y daeth i'w hadnabod. 'Y mae'r wraig yn hapus yn ei sicrwydd o ffyddlondeb ei gŵr ac y mae ef yr un mor falch o'r partner a ddewisodd am oes. Ac yn eu cartref, yng nghwmni ei gilydd, y mae eu hapusrwydd mwyaf.' Cymharodd hyn â'i phriodas hi ac Angus, 'ychydig gyfweliadau cyfrinachol wedi eu trwytho gan yr ofn o gael ein darganfod.' Ond yna ychwanegodd, 'Byddai'n well gennyf dreulio awr yn dy gwmi di nag oes gyfan yng nghwmni un arall.' Pan ddiddymwyd y gwys ddwy flynedd yn ddiweddarach, dychwelodd Martha a'r plentyn i Utah.

Wedi dychwelyd, dechreuodd ymddiddori'n ddwfn yn yr ymgyrch i ennill y bleidlais i ferched. Yr oedd wedi bod yn gefnogol i ysbryd y mudiad o'i dyddiau cynnar, byth oddi ar iddi, yn ferch ysgol, gael ei chyflogi fel cysodydd rhan amser ar y 'Woman's Exponent'. Cylchgrawn oedd hwn ar gyfer gwagedd Mormonaidd. Ac wrth ei gysodi cafodd Martha siawns i'w ddarllen a'i ystyried. Cefnogai'r

‘Woman’s Exponent’ briodasau amlwreiciol, ond hefyd, yn fwy annisgwyl efallai, cefnogai hawliau merched, yn enwedig yr hawl i gael y bleidlais.

Yr oedd sefyllfa boliticaidd gwragedd Utah bryd hynny yn gymhleth dros ben. Rhoddwyd y bleidlais iddynt am y tro cyntaf ym mil wyth saith deg, cyn unrhyw dalaith arall yn yr Unol Daleithiau, heblaw am Wyoming, a deng mlynedd ar hugain cyn ffurfio’r gymdeithas pleidlais i ferched gyntaf yng Nghymru, yn y Ty Coco yn Llandudno. Ond gelynyon y Mormoniaid yn Washington roddodd y bleidlais i ferched Utah, a hynny oherwydd eu bod yn gobeithio y byddent yn defnyddio’r bleidlais i dorri’n rhydd o hualau amlwreiciaeth a mynnu priodasau confensiynol. Ond, yn gwbl groes i’r disgwyl, pleidleisiodd y chwiorodd yn gadarn o blaid y *status quo*. Yr oedd sefyll ochr yn ochr â’u dynion gan gyflwyno wyneb unedig i’r byd yn bwysicach o lawer iddyn nhw na chael diahangfa o’u priodasau. Dadleuent os oedd merch yn anhapus yn ei phriodas, bod ysgariad yn hawdd i’w gael yn Utah. Dadleuent, hefyd, mai rhyw bump-ar-hugain y cant o ferched yr Eglwys oedd mewn perthynas amlwreiciol ac mai o ddewis oedd hynny. A dadleuent mai mater o grefydd a chydwybod oedd hi ac na ddylai’r wladwriaeth ymyrryd.

Ym 1889, cydnabu’r llywodraeth yn Washington nad oedd gobaith i gael gwared o amlwreiciaeth drwy roi’r bleidlais i ferched, ac felly, wedi mron i ddeg mlynedd o arfer yr hawl, fe’i dilëwyd a thynnwyd y bleidlais oddi arnynt. Fe gythruddwyd Martha a’i chriw yn enfawr a dechreusant ymgyrchu’n galetach nag erioed dros adennill y bleidlais. Yr oedd yn sefyllfa od. Dwy ymgyrch wedi’u plethu drwy’u gilydd, dwy ymgyrch na fedrent fod yn fwy gwahanol, y mudiad i ennill y bleidlais i ferched ar yr un llaw - modern, ffasiynnol, radical - ac ar y llaw arall, yr ymgyrch am barhad y priodasau amlwreiciol - ymgyrch a ymddangosai, o’r tu allan i Utah, fel cam nol i’r tywyllwch, yn cyfyngu ar ryddid a hawliau merched. Ag eto roedd Martha, fel llawer

o ferched Mormonaidd eraill, yn daer dros y ddwy ac yn barod i ymladd yn ffyrnig i'w hamddiffyn.

Trwy gydol yr wythdegau, tynhaodd y Wladwriaeth ei afael ar y Saint amlwreiciol a'u gwasgu'n ddirugaredd. Carcharwyd cannoedd ohonyn nhw. Cymerwyd mwy a mwy o asedau'r Eglwys oddi arni. Yr oedd y diwedd yn anochel. Ym 1890, dair blynedd ar ddeg wedi marwolaeth Brigham Young, ildiodd yr Eglwys a chyhoeddodd y Proffwyd ar y pryd iddo gael cyfarwyddyd o'r Goruchaf mai un wraig yn unig oedd i fod i bob Sant o hynny mlaen. Addawodd y Mormoniaid na fyddent yn caniatáu rhagor o briodasau amlwreiciol ac na chai dyn gyd-fyw gyda mwy nag un wraig. Yn gyfreithiol felly, diddymwyd perthynas Martha ag Angus dros nos, ond mewn ffaith, y mae'n glir, o beth ddigwyddodd yn fuan wedyn, bod y garwriaeth yn parhau. Y mae eisiau gwybod am y treialon hyn yn ei bywyd preifat er mwyn llawn amgyffred dewrder ei bywyd cyhoeddus.

Wedi dod nol i Utah o Ewrop ym mil wyth wyth wyth, yr oedd Martha wedi agor coleg i nyrsus, y cynta o'i fath yn y dalaith, cam arloesol, beiddgar, dewr, hollol nodweddiadol ohonni. Ond nid cynt y cychwynodd ar ei gyrfa newydd nad oedd hi eto yn feichiog. Yn ei llythyrau, parheuai Martha mor ddi-wyro ag erioed, yn dal i ddatgan 'bod amlwreiciaeth yn caniatáu iddi fod gyda'r etholedig rai trwy dragwyddoldeb'. Ond yn y byd oedd ohoni, codai'r drefn newydd anhawsterau mawrion yn ei llwybr. 'Yr oedd yn ddiamheuol bod Martha ac Angus mewn cariad,' ysgrifennodd un o'u hwyrion, 'ond perthynas chwerw-felys oedd hi, llythyron caru a chardiau ffolant yn gymysg â chwynion ei bod hi'n cael ei hesgeuluso a bygythiadau ei bod hi am gael ysgariad.' Ac yn awr, am yr ail dro, pan oedd ar fin codi i feysydd newydd, uchelgeisiol, mentrus yn ei gyrfa, dyma hi eto yn feichiog ac yn gorfod rhoi'r gorau i'r coleg a ffoi, gyda Lizzie, y tro hwn i Galifornia, i roi genedigaeth yn gyfrinachol i'w mab, James.



'Daeth nol yn dawel i Ddinas y Llyn Halen wedi rhai misoedd a dechrau gweithio eto ar ei liwt ei hun fel meddyg. Ond yr oedd tinc bendant o ddadrithiad yn ymgripiant i mewn i'r llythyrau erbyn hyn. 'O, am gartref a gŵr i mi fy hun, tad i'm plant - a'r pethau bychain hynny ddaw yn eu sgil, sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw.'

Erbyn hyn yr oedd Martha yn aelod amlwg o Gymdeithas Pleidlais i Ferched Utah. Dacw hi ar y chwith yn y llun yma ohonynt. Datblygodd ddawn arbennig fel areithwraig, a dechreuodd deithio'r wlad i gynrychioli'r gymdeithas mewn cynhadleddau cenedlaethol. yn siarad yn Ffair Fawr y Byd yn Chicago, ac yna yn Washington, gerbron un o bwyllgorau'r Senedd. Barn y *Chicago Record* amdani oedd 'y dylid ystyried Dr Martha Hughes Cannon fel un o ddadleuwyr galluocaf y genedl dros hawliau merched.'

Bryd hynny, nid oedd Utah eto yn dalaith. Tiriogaeth oedd hi, heb gael gwahoddiad eto i fod yn llawn aelod o'r Unol Daleithiau ond 'roedd y llywodraeth ffederal wedi addo y cai ei gwneud yn dalaith pan roddai'r gorau i amlwreiciaeth. Ac felly yn 1896, chwe mlynedd wedi cydymffurfio â'r gweddill o'r genedl, sefydlwyd y dalaith newydd a chrewyd cyfansoddiad newydd ar ei chyfer; ac wedi ymgyrchu caled, llwyddodd Martha a'r Gymdeithas Pleidlais i Ferched i gael cymal yn y cyfansoddiad honno wnaeth sicrhau'r bleidlais i ferched. 'Erthygl Pedwar, adran un. 'Ni wrthodir na chyfyngir ar hawliau dinasyddion talaith Utah i bleidleisio neu ddal swydd oherwydd eu rhyw.'

Beth nesaf? Edrychodd Martha o'i chwmpas. Fel meddyg, yr oedd yn ymwybodol iawn bod eisiau gwella safonau glanweithdra ac iechyd cyhoeddus y dalaith newydd. Fel y rhan fwyaf o drefi mawrion yr Unol Daleithiau ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, tref ddigon budr a di-raen oedd Dinas y Llyn Halen. Yr oedd eisiau strydoedd glanach, cyflenwad dibynadwy o ddwr glan, gwell carthffosiaeth. Yr oedd afiechydon fel y diciáu, cholera, y frech goch

a'r pês yn rhemp. Penderfynodd Martha wneud rhywbeth i wella'r sefyllfa.

Yn lecsiwn cyntaf y dalaith newydd, rhoddodd ei henw mlaen fel ymgeisydd ar ran y Blaid Ddemocrataidd yn y ddinas. Yn sefyll yn eu herbyn yr oedd pum ymgeisydd Gweriniaethol ac un ohonynt oedd Angus. Fel y gellid ddisgwyl, bu cryn dynnu coes yn y wasg.

Cynigiwyd paragraphau o gyngor i Angus ar sut i reoli caseg wyllt neu sut i docio aden aderyn rhag iddo ddianc. Ond yr oedd gan Martha ei chefnogwyr hefyd. Ebe'r *Salt Lake Herald*, 'Mrs. Mattie Hughes Cannon, ei wraig, yw'r dyn gore o'r ddau. Anfoner Mrs Cannon i senedd-dy'r dalaith fel Democrat a chadwer Mr Cannon gartref fel Gweriniaethwr i edrych ar ol y ty.'

Pan ddaeth diwrnod y bleidlais, sgubwyd Martha a'r Democratiaid i'r Senedd. Hi oedd y wraig gyntaf i'w hethol, nid dim ond i Senedd Utah, ond i unrhyw senedd-dy yn yr Unol Daleithiau, boed yn daleithiol neu yn ffederal. Tra yn y Senedd, cyflawnodd Martha ei gwaith gorau, fel y gellid ddisgwyl, ym meysydd iechyd cyhoeddus a gofal blant. Cyflwynodd nifer o ddeddfau yn ymwneud ag addysg plant dall a byddar, iechyd a diogelwch merched mewn diwydiant, gwell safonau glendid mewn cynhyrchu bwyd, gwell carthffosiaeth a glanach dŵr, ac mi greodd uned o fewn y llywodraeth i ymchwilio polisi a chasglu ystadegau. Cyflwynodd ddeddf hefyd i greu Bwrdd Iechyd i'r dalaith, bwrdd fyddai'n gofalu am frechu plant, am gofrestru doctoriaid, ac am faterion meddygol ac iechyd cyhoeddus yn gyffredinol, ac mi roedd hi ei hun yn un o'i aelodau cyntaf.

Ym 1899 bu son am ei henwebu fel ymgeisydd am sedd yn Senedd yr Unol Daleithiau, ac roedd hyn ugain mlynedd cyn i'r wraig gyntaf gael ei hethol i'r lle hwnnw. Ond unwaith eto, pan oedd ei gyrfa ar fin hedfan, tynnwyd hi nôl lawr i'r ddaear a drylliwyd ei chynlluniau. Unwaith eto, roedd hi'n feichiog. Rhoddodd enedigaeth i Gwendolyn yn Ebrill 1899. Yr oedd y babi yn brawf bod Angus a hithau'n dal i

dorri'r gyfraith. Ac fe greodd hynny sgandal fawr, y papurau'n gwneud môr a mynydd o'r peth. Fe arestwyd Angus a bu raid iddo dalu diryw o gan doler. Ond fe gostiodd llawer mwy i Martha, oherwydd daeth ei gyrfa gwleidyddol hi i ben.

Yr oedd eto ond yn ei phedwar degau cynnar. Parhaodd yn ei gwaith meddygol ond treuliau mwy a mwy o'i hamser yn magu ac addysgu ei phlant. Erbyn hyn dengys y llythyrau fod y berthynas rhyngddi hi ac Angus wedi dirywio i'r fath raddau fel mai ychydig oedd ar ôl ond mân gwerylon a dadleuon cyson am bres. 'Annwyl Angus, Os gweli di'n dda, wnei di anfon y tâl misol. Y mae'n rhaid i'r plant gael eu bwydo a'u dilladu' 'Annwyl Angus, Mae'r Gymdeithas Adeiladu eisiau i ni symud o'r tŷ gan fod arnom ddyled o ddau gan dollar.' 'Annwyl Angus, Rwy'n teimlo cywilydd i orfod anfon atat i ofyn am fenyn.' Ni fedrai ei gŵr roi iddi'r sicrwydd emosiynol yr oedd angen arni na'r cartref y dyheuiai amdano.

Awgryma'r llythyrau ei bod yn aml yn suddo i iselder. Er gwaethaf yr wyneb cyhoeddus hyderus, dioddefai bangfeydd o hunan-amheuaeth a digalondid. 'Dywed pobl fy mod yn ddi-deimlad,' meddai, 'pan, mewn gwirionedd, mae tyndra fy nheimladau yn cnoi fy mherfedd fel cynrhon rheibus.' Yn y diwedd, gadawodd Utah ac aeth i fyw at ei mab yn Los Angeles, lle bu farw ym mil naw tri dau. Un o'i dymuniadau olaf oedd bod ei phapurau personol a'i dyddiaduron i gael ei llosgi ac am hanner can mlynedd, anghofwyd amdani.

Ond yna sylweddolodd merched Utah bod Martha wedi bod yn ymladd llawer o'r brwydrau yr oeddent hwy hefyd yn ymladd yn Utah heddiw. Cychwynwyd ymgyrch i wneud ei henw yn fwy adnabyddus, i atgoffa pobl Utah o'r hyn a gyflawnodd. Fel y mynnodd gael ei thrin yn gyfartal yn y Senedd. 'Genedigaeth-fraint pob gŵr a **gwraig**,' arferai ddweud, 'yw rhyddid a chydraddoldeb.' Fel y mynnodd bod lle i ferched ym mhob agwedd o fywyd. 'Y mae llawer gwirionedd

gwyddonol eto i'w ddarganfod, llawer celfwaith i'w berffeithio, sy'n galw am galonnau a theimladau merched.'

Ymladdodd am gyfleoedd gwell i ferched yn y gweithle ac yn y cartref. 'Rhowch i mi'r wraig sy'n meddwl am bethau heblaw'r stôf a'r badell olchi a chlytiau babis,' meddai, 'ac mi ddangosaf i chi, naw gwaith allan o ddeg, fam lwyddiannus.' Brwydrodd i ehangu a chyfoethogi bywydau gwragedd, brwydr a gymhlethwyd yn aml ac a ddryswyd ar adegau gan ei daliadau Mormonaidd a'i phriodas amlwreiciol.

Y mae hon yn wraig y dylem ni yma yng Nghymru wybod mwy amdani.